Yn dilyn fy e-bost ar 17 Mawrth 2015, ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais ar 11 Mawrth 2015, sef:

1. **Credaf ei bod yn gyfan gwbl er lles y cyhoedd i gael gwybod faint o arian y Cynulliad a ddefnyddiwyd i sicrhau'r contract pum mlynedd ar gyfer y ras hon, a enillwyd oddi wrth Silverstone**

2. **Dylem gael gwybod pa ganran o arian y Cynulliad a ddefnyddiwyd i sicrhau'r contract i ddechrau ac os yw'n ganran sylweddol (100% rwy'n credu), yna faint mae Silverstone wedi gwneud i Gylchffordd Cymru ei dalu i redeg y digwyddiad a sicrhau elw iddynt eu hunain?**

3. **Gwnaed haeriadau gan Reolwr Gyfarwyddwr Datblygu Blaenau'r Cymoedd cyn yr ymchwiliad Dadgofrestru y mis hwn bod £120 miliwn o fuddsoddiad eisoes wedi'i addo iddynt. A wyddoch chi a yw hyn yn wir, pwy ydyn nhw a pha mor gadarn yw'r ymrwymiad?**

(Rwyf wedi mewnosod rhifau er hwylustod)

Nid oes gennym gofnod o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad yng nghwestiwn 2 o'ch cais, ac nid oes gennym ychwaith gofnod o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad yn rhan gyntaf cwestiwn 3, hynny yw a yw'n wir fod buddsoddiad o £120 eisoes wedi'i addo.

Mae gennym wybodaeth sydd yn berthnasol i'r disgrifiad o gwestiwn 1 ac sy'n ateb disgrifiad gweddill cwestiwn 3. Mae'r wybodaeth yn dod o fewn yr esemptiad a ddarperir gan adran 43(2) (buddiannau masnachol) Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae arnaf angen mwy o amser i ystyried a chloriannu lles y cyhoedd er mwyn penderfynu a ddylid cynnal yr esemptiad. Ysgrifennaf atoch eto pan fyddaf wedi gorffen gwneud hynny, a disgwyliaf y bydd hynny erbyn dydd Mercher 22 Ebrill.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips